

CYFEIRLYFR MODYLAU

RHAGORIAITH: CANOLFAN GWASANAETHAU CYMRAEG

LEFEL 7

YN GYSYLLTIEDIG Â'R ATHROFA ADDYSG A'R DYNIAETHAU 2025-2026

TUDALEN GYNNWYS

Rhif Tud

CYFLWYNIAD**Error! Bookmark not defined.**

MODYLAU 2

CYFLWYNIAD

Mae'r Cyfeiriadur Modylau hwn yn cynnwys yr holl fodylau ar gyfer Lefel 7 o fewn y Ganolfan Gwasanaethau Cymraeg ym mlwyddyn academiaidd 2025-2026.

Mae'r cyfeiriadur hwn yn mynd gyda'r Llawlyfr Rhaglen Astudio, a fydd yn rhoi manylion y modylau y byddwch yn eu hastudio ar gyfer eich rhaglen eleni yn yr adran 'Rhaglen Astudio'. Gall y cyfeiriadur hwn gynnwys modylau sy'n rhedeg ar raglenni astudio eraill o fewn eich Disgyblaeth Academiaidd/Athrofa. Os oes angen cymorth arnoch i adnabod modylau eich rhaglen astudio, cysylltwch â'r Rheolwr Rhaglen (y mae ei enw a'i fanylion cyswllt wedi'u rhoi yn y Llawlyfr Rhaglen Astudio sy'n mynd gyda'r ddogfen hon), neu Swyddfa'r Athrofa berthnasol.

Mae'r Brifysgol wedi gwneud pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth mor lawn a chywir â phosibl, ond dylech nodi ei bod yn anochel y bydd rhai mân newidiadau yn digwydd i drefniadaeth y modylau rhwng y cyfnod cynllunio ac amser addysgu'r modylau. Byddwn yn ceisio sicrhau y bydd cyn lleied o newidiadau â phosibl, ac fe gewch ddigon o rybudd o flaen llaw os bydd unrhyw newid. Byddem hefyd yn ddiolchgar pe baech yn rhoi gwybod i ni am unrhyw newidiadau defnyddiol y gallem eu gwneud i'r llawlyfr yn y dyfodol.

MODYLAU

Tystysgrif Ôl-raddedig Cyfieithu ar y Pryd

GCCP7001C	Cyflwyniad i Gyfieithu ar y Pryd
GCCP7004C	Cyfieithu ar y Pryd: arfer ac ymarfer
GCCP7003C	Cyfieithu ar y Pryd Proffesiynol

Tystysgrif Ôl-raddedig Polisi a Chynllunio Iaith

GCIS7004C	Hanfodion Isdeitlo
GCIS7005C	Isdeitlo – Ymarfer ac Ymgysfarwyddo
GCIS7006C	Isdeitlo Byw yn y Gweithle

Côd y Modwl	GCCP7001C
Teitl	Cyflwyniad i Gyfieithu ar y Pryd
Dyddiad	28/10/2022
Lefel	7
Credydau	10
Rhagofynion	Dim

AMCAN(ION)

- I gynnig blas cychwynnol i fyfyrwyr o'r maes cyfieithu ar y pryd, datblygu sgiliau cyfieithu ar y pryd, a hynny mewn amgylchedd cefnogol.

DEILLIANNAU DYSGU

Ar ôl cwblhau'r modwl hwn yn llwyddiannus, dylai'r myfyriwr allu:

- rhoi gwerthusiad beirniadol o swyddogaeth cyfieithu ar y pryd mewn cyd-destun lleol a rhyngwladol;
- arddangos sgiliau darllen, gwranddo, dehongli, cyflwyno a chyfathrebu'n raenus yn y Gymraeg a'r Saesneg er mwyn cyfleu ystyr yn gywir mewn cyd-destunau gwahanol gan weithio'n annibynnol a chymhwyso'r sgiliau hynny sydd eu hangen i gyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg;
- arddangos dealltwriaeth o'r gwahanol ofynion o ran cyfieithu ar y pryd wyneb yn wyneb a chyfieithu ar y pryd o bell.

CYNNWYS DANGOSOL

- Bydd y modwl yn rhoi cyfieithu ar y pryd yn ei gyd-destun lleol, cenedlaethol a rhyngwladol. Caiff y myfyrwyr gyfle i gysgodi cyfieithydd profiadol wrth ei waith ar leoliad a disgwylir i'r myfyrwyr baratoi yn annibynnol.
- Yn rhan o'r dysgu cyfeiriol disgwylir i fyfyrwyr fireinio sgiliau llefaru a chyfathrebu proffesiynol yn y Gymraeg a'r Saesneg, cyn mynd ati i ddadansoddi'n feirniadol y sgil o wrando a siarad ar yr un pryd.
- Trwy ddefnyddio amrywiol glipiau sain amlgyfrwng a chyflwyno'r genres posibl, caiff y myfyrwyr gyfle i ymarfer y grefft o gyfieithu ar y pryd dan gyfarwyddyd ar ffurf gwaith grŵp a/neu mewn parau yn y dosbarth.
- Bydd y modwl yn cynnig blas cychwynnol o gyfieithu ar y pryd wyneb yn wyneb a chyfieithu ar y pryd o bell. Rhoddir ystyriaeth i oblygiadau deddfwriaeth ddiweddar ar y proffesiwn CAP ac ar ddatblygiad cyfieithu o'r Saesneg i'r Gymraeg mewn cyd-destunau penodol.

Dyraniad Amser Astudio

Mae'r amser astudio ar gyfer y modwl wedi ei rannu fel a ganlyn:

Math o Weithgaredd	Oriau	Canran
Dysgu wedi'i amserlennu	15	15%
Dysgu'n annibynnol	85	85%
Dysgu drwy leoliadau		
CYFANSWM	100	100%

ASESU

Elfen Asesu 1

☐ Arholiad ysgrifenedig ☐ Gwaith cwrs ☒ Ymarferol

Dull asesu	Maint	Pwysiad
Dau brawf cyfieithu ar y pryd gwrthgyferbyniol o'r Gymraeg i'r Saesneg	5 munud yr un	80%

Elfen Asesu 2

☐ Arholiad ysgrifenedig ☒ Gwaith cwrs ☐ Ymarferol

Dull asesu	Maint	Pwysiad
Adroddiad	1,000 gair	20%

Crynodeb o'r Asesiad

Math o weithgarwch	Canran
Arholiad ysgrifenedig	
Gwaith cwrs	20%
Ymarferol	80%
CYFANSWM	100%

RHESTR DDARLLEN DDANGOSOL

Côd y Modwl	GCCP7001C	
Teitl Modwl	Cyflwyniad i Gyfieithu ar y Pryd	
Categori	Eitemau'r Rhestr Ddarllen	Electronig*
Hanfodol	Austermuhl, F., <i>Electronic Tools for Translators</i> , Manchester: St Jerome, 2001	☐
Hanfodol	Griffiths, Bruce a Dafydd Glyn Jones, <i>Geiriadur yr Academi</i> , Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1995 http://techiaith.bangor.ac.uk/GeiriadurAcademi <darllenwyd 1 Medi 2012>	☒
Hanfodol	Jones, R., <i>Conference Interpreting Explained</i> , Manchester: St Jerome, 1998	☐

Hanfodol	Kaufmann, Judith, 'Cymdeithaseg cyfieithu: Dylanwad cyfieithu ar y pryd ar y defnydd o'r Gymraeg yng Ngwynedd', traethawd PhD, Prifysgol Bangor, 2009	☐
Hanfodol	Davies, Hurford ac Edwards, E-lyfr Cyfieithu ar y Pryd https://www.porth.ac.uk/cy/collection/e-lyfrau-cyfieithu	☒
Pellach	Comisiynydd y Gymraeg p://www.comisiynyddygyymraeg.chttymru/cymraeg/Pages/Hafan.aspx http://www.comisiynyddygyymraeg.cymru/Cymraeg/Adrod-diadau/Pages/Cyfieithu.aspx https://www.comisiynyddygyymraeg.cymru/polisi-ac-ymchwil/defnyddior-gymraeg	☒
Pellach	Cyfieithu ar y pryd yn Ewrop: https://europa.eu/european-union/about-eu/working_en http://www.europarl.europa.eu/interpretation/en/introduction/introduction.html https://ec.europa.eu/info/departments/interpretation_en https://curia.europa.eu/jcms/jcms/Jo2_12357/	☒
Pellach	Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru https://www.cyfieithwyr.cymru/ https://www.cyfieithwyr.cymru/en/resources/publications https://www.cyfieithwyr.cymru/files/Hwyl-a-Helynt-Cyfieithu-ar-y-Pryd-yng-Nghymru.pdf https://www.cyfieithwyr.cymru/files/MegElis.pdf	☒
Pellach	Garzone, Giuliaa a Viezzi, Maurizio (goln), <i>Interpreting in the 21st Century: challenges and opportunities, selected papers from the 1st Forlì conference on interpreting studies, 9-11 November 2000</i> , Amsterdam: John Benjamins, 2002, e-lyfr	☒
Pellach	Geiriadur ar lein Prifysgol Cymru http://www.geiriadur.ac.uk/	☒
Pellach	Hatim, Basil, <i>Teaching and Researching Translation</i> , Harlow and New York: Longman, 2001	☐
Pellach	Hughes, J. Elwyn, <i>Canllawiau Iaith a Chymorth Sillafu</i> , Llandysul: Gwasg Gomer, 1997	☐
Pellach	Llywodraeth Cymru Welsh Government. <i>Cymraeg 2050 Miliwn o siaradwyr</i> , http://www.assembly.wales/laid%20documents/gen-ld11108/gen-ld11108-w.pdf	☒
Pellach	Paneth, E., "Training in Note Taking (for interpreting)," yn Wilss, W a Thomes, G. (goln.) <i>Translation Theory and its Implementation in the Teaching of Translating and Interpreting</i> , Tübingen: Gunter Narr, 2001, tt. 326-32	☐
Pellach	Phelan, M., <i>The Interpreter's Resource</i> , Clevedon: Multilingual Matters, 2001	☐
Pellach	Robinson, Douglas, <i>Becoming a Translator: An Introduction to the Theory and Practice of Translation</i> , London: Routledge, 2003	☐
Pellach	Steiner, George, <i>After Babel: Aspects of Language and Translation</i> , Oxford: Oxford University Press, 1983	☐

Pellach	Term Cymru, Llywodraeth Cymru, http://www.termcymru.cymru.gov.uk	☒
Pellach	Y Porth Termau Cenedlaethol http://termau.cymru/	☒

Côd y Modwl	GCCP7004C
Teitl	Cyfieithu ar y Pryd: arfer ac ymarfer
Dyddiad	28/10/2022
Lefel	7
Credydau	20
Rhagofynion	GCCP7001C / Tystiolaeth o brofiad blaenorol

AMCAN(ION)

- I ddadansoddi, datblygu a mireinio'r holl sgiliau sy'n angenrheidiol ar gyfieithydd ar y pryd.

DEILLIANNAU DYSGU

Ar ôl cwblhau'r modwl hwn yn llwyddiannus, dylai'r myfyriwr allu:

- dadansoddi'n feirniadol rôl a swyddogaeth y cyfieithydd ar y pryd ac arddangos dealltwriaeth eglur o'r prif ddamcaniaethau ym maes cyfieithu ar y pryd;
- defnyddio sgiliau ymchwil annibynnol ac amgyffred elfennau sylfaenol pwnc arbenigol/technegol a'r derminoleg berthnasol, yn ogystal â chasglu geirfa ddwyieithog ar gyfer y derminoleg honno;
- cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg mewn nifer o gyd-destunau a genres gwahanol, gan lefaru'n glir yn y cywair priodol a deall a dehongli'n gywir wrth gyfieithu ar y pryd, a gwerthuso eu gwaith eu hunain yn feirniadol gan hefyd ddatblygu dealltwriaeth o'r cysyniad o gyfieithu ar y pryd o'r Saesneg i'r Gymraeg;
- cyfieithu ar y pryd yn defnyddio amrywiol offer cyfieithu ar y pryd a llwyfannau sy'n galluogi cyfieithu ar y pryd o bell.

CYNNWYS DANGOSOL

- Yn y modwl hwn astudir hanes a theori cyfieithu ar y pryd a dadansoddir y prif ddamcaniaethau rhyngwladol sy'n gyfoes ym maes cyfieithu ar lafar. Trafodir yr ystod o sgiliau sy'n angenrheidiol wrth gyfieithu ar y pryd yn effeithiol: cywair llais, stamina, rheoli goslef y llais, ynganu, strategaethau cynorthwyo'r cof, cymryd nodiadau, gwrandao a siarad ar yr un pryd a pharatoi ar gyfer cyfarfodydd.
- Bydd myfyrwyr yn dod yn gyfarwydd ag adnoddau a fydd yn eu cynorthwyo wrth ymchwilio'n annibynnol i feysydd arbenigol wrth baratoi ar gyfer gwaith cyfieithu ar y pryd, e.e. ffynonellau electroneg, terminoleg a geirfa arbenigol. Canolbwyntir ar loywi Saesneg y myfyrwyr, siarad yn eglur a chyfieithu'n naturiol. Rhoddir ystyriaeth i oblygiadau deddfwriaeth ddiweddar ar y proffesiwn CAP ac ar ddatblygiad cyfieithu o'r Saesneg i'r Gymraeg mewn cyd-destunau penodol.
- Cyflwynir y myfyrwyr i'r Llwyfan Cyfieithu ar y Pryd er mwyn ehangu ar eu profiad o amrywiol gyd-destunau. Caiff y myfyrwyr ddefnyddio'r Llwyfan Cyfieithu ar y Pryd er mwyn magu profiad ac er mwyn recordio clipiau ymarfer. Rhoddir adborth ar eu perfformiadau gan ddarlithwyr. Bydd myfyrwyr yn gwerthuso eu gwaith eu hunain wrth ddefnyddio'r Llwyfan ac adfyrio'n feirniadol ar eu perfformiad a'u datblygiad personol.

- Rhoddir cyfle i fyfyrwyr gyfieithu mewn nifer o gyd-destunau gwahanol ac edrychir ar genres gwahanol (e.e. iaith busnes, hamdden, cyfarfodydd ffurfiol, darlithiau academiaidd cyhoeddus, cyfieithu ym meysydd crefydd, gwleidyddiaeth a'r gyfraith ac iechyd). Bydd y myfyrwyr yn gwerthuso eu gwaith eu hunain, yn ogystal â gwaith ei gilydd. Dadansoddir gwallau iaith ac awgrymir gwelliannau, yn ogystal â thrafod cryfderau a rhannu arfer da.
- Cyflwynir y myfyrwyr i'r amrywiol offer cyfieithu ar y pryd wyneb yn wyneb a hefyd y llwyfannau mwyaf cyfarwydd a ddefnyddir er mwyn cynnig gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o bell, e.e. Zoom, Microsoft Teams ac ati, ac ymgyswrtio â'u defnyddio.

Dyraniad Amser Astudio

Mae'r amser astudio ar gyfer y modwl wedi ei rannu fel a ganlyn:

Math o Weithgaredd	Oriau	Canran
Dysgu ar yr amserlen	30	15%
Dysgu'n annibynnol	170	85%
Dysgu drwy leoliadau		
CYFANSWM	200	100%

ASESU

Elfen Asesu 1

☐ Arholiad ysgrifenedig ☐ Gwaith cwrs ☒ Ymarferol

Dull asesu	Maint	Pwysiad
Dau brawf cyfieithu ar y pryd gwrthgyferbyniol o'r Gymraeg i'r Saesneg	10 munud yr un	80%

Elfen Asesu 2

☐ Arholiad ysgrifenedig ☒ Gwaith cwrs ☐ Ymarferol

Dull asesu	Maint	Pwysiad
Gwerthfawrogiad Ysgrifenedig	Hyd at 2000 o eiriau	20%

Crynodeb o'r Asesiad

Math o weithgarwch	Canran
Arholiad ysgrifenedig	
Gwaith cwrs	20%
Ymarferol	80%
CYFANSWM	100%

RHESTR DDARLLEN DDANGOSOL

Côd y Modwl	GCCP7004C	
Teitl Modwl	Cyfieithu ar y Pryd: arfer ac ymarfer	
Categori	Eitemau'r Rhestr Ddarllen	Electronig*
Hanfodol	Austermuhl, F., <i>Electronic Tools for Translators</i> , Manchester: St Jerome, 2001	☐
Hanfodol	Gran, Laura a John Dodds (goln), <i>The Theoretical and Practical Aspects of Teaching Conference Interpretation</i> , Udine: Campanotto, 1989	☒
Hanfodol	Davies, Hurford ac Edwards, E-lyfr Cyfieithu ar y Pryd https://www.porth.ac.uk/cy/collection/e-lyfrau-cyfieithu	☒
Hanfodol	Jones, R., <i>Conference Interpreting Explained</i> , Manchester: St Jerome, 1998	☐
Hanfodol	Kaufmann, Judith, 'Cymdeithaseg cyfieithu: Dylanwad cyfieithu ar y pryd ar y defnydd o'r Gymraeg yng Ngwynedd', traethawd PhD, Prifysgol Bangor, 2009	☐
Hanfodol	Lambert, S. a Moser-Mercer B. goln. <i>Bridging the Gap: Empirical Research in Simultaneous Translation</i> , Amsterdam: John Benjamins, 1994	☐
Hanfodol	Venuti, Lawrence, <i>The Translator's Invisibility. A History of Translation</i> , London: Routledge, 1995	☐
Pellach	Davies, Hurford, Edwards, E-lyfr Cyfieithu ar y Pryd, Coleg Cymraeg Cenedlaethol, 2022	☐
Pellach	Dienw, <i>O Glust i Glust; Canllawiau ar Ddefnyddio Gwasanaeth Cyfieithu ar y Pryd</i> , Llangefni: Menter Iaith Môn, 2002	☐
Pellach	Griffiths, Bruce a Dafydd Glyn Jones, <i>Geiriadur yr Academi</i> , Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1995 http://techiaith.bangor.ac.uk/GeiriadurAcademi <darllenwyd 1 Medi 2012>	☒
Pellach	Hale, Sandra Beatriz, <i>The Discourse of Court Interpreting: discourse practices of the law, the witness, and the interpreter</i> , Amsterdam: John Benjamins, 2004, e-lyfr	☒
Pellach	Llywodraeth Cymru Welsh Government. <i>Cymraeg 2050 Miliwn o siaradwyr</i> , http://www.assembly.wales/laid%20documents/gen-ld11108/gen-ld11108-w.pdf ,	☒
Pellach	Monacelli, C., <i>Self-Preservation in Simultaneous Interpreting [electronic resource]: Surviving the Role</i> , Philadelphia, PA: John Benjamins, 2009	☐
Pellach	Paneth, E., "Training in Note Taking (for interpreting)," yn Wilss, W a Thomes, G. (goln.) <i>Translation Theory and its Implementation in the Teaching of Translating and Interpreting</i> , Tübingen: Gunter Narr, 2001, tt. 326-32	☐
Pellach	Newmark, P., <i>Approaches to Translation</i> , Oxford: Pergamon Press, 1981	☐
Pellach	Nolan, James, <i>Interpretation: techniques and exercises</i> , Buffalo: Multilingual Matters, 2005 e-lyfr	☒

Pellach	Phelan, M., <i>The Interpreter's Resource</i> , Clevedon: Multilingual Matters, 2001	☐
Pellach	Setton, R. <i>Simultaneous Interpretation: A Cognitive-Pragmatic Analysis</i> , Amsterdam: John Benjamins, 1999	☐
Pellach	Paneth, E., 'Training in Note Taking (for interpreting),' yn Wilss, W a Thomes, G. (goln.) <i>Translation Theory and its Implementation in the Teaching of Translating and Interpreting</i> , Tübingen: Gunter Narr, 2001, tt. 326–32	☐
Pellach	Term Cymru, Llywodraeth Cymru, http://www.termcymru.cymru.gov.uk	☒
Pellach	Geiriadur ar lein Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant http://www.geiriadur.net	☒
Pellach	Geiriadur ar lein Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant http://www.geiriadur.net	☒
Pellach	Y Porth Termau Cenedlaethol http://termau.cymru/	☒

Côd y Modwl	GCCP7003C
Teitl	Cyfieithu ar y Pryd Proffesiynol
Dyddiad	28/10/2022
Lefel	7
Credydau	30
Rhagofynion	GCCP7001C a GCCP7004C

AMCAN(ION)

- Hyfforddi'r myfyrwyr yn y sgiliau ymarferol hanfodol i gyfieithu ar y pryd yn broffesiynol a magu ymwybyddiaeth o ddiwylliant y gweithle.

DEILLIANNAU DYSGU

Ar ôl cwblhau'r modwl hwn yn llwyddiannus, dylai'r myfyriwr allu:

- cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg yn gywir a hyderus mewn sefyllfaoedd amrywiol a gwerthfawrogi pwysigrwydd llefaru clir yn y cywair priodol a'r angen i ddeall a dehongli'n gywir wrth gyfieithu ar y pryd;
- ymarfer ymhellach y grefft o gyfieithu o'r Saesneg i'r Gymraeg;
- gwerthuso'n feirniadol gyfrifoldebau'r cyfieithydd ar y pryd wrth wneud ei waith a'u cryfderau a'u gwendidau eu hunain wrth weithio;
- gwerthfawrogiad o'r hanfodion a'r gwahaniaethau rhwng cyfieithu ar y pryd wyneb yn wyneb, cyfieithu ar y pryd o bell a chyfieithu 'hybrid'.

CYNNWYS DANGOSOL

- Yn y modwl hwn bydd y myfyrwyr yn dysgu am fyd go iawn y cyfieithydd ar y pryd proffesiynol, yn ogystal â pharhau i ddatblygu'r grefft o gyfieithu ar y pryd. Dysgir sut i osod a gweithio'r gwahanol offer CAP a hefyd yr amrywiol lwyfannau digidol er mwyn cyfieithu ar y pryd o bell a chyfieithu 'hybrid'; arferion da wrth gyfieithu ar y pryd; sut i baratoi ac ymchwilio ar gyfer cyfarfod; ffyrdd o ddygydd ag anawsterau; ymarwedd personol mewn cyfarfod; a hanfodion pwysigrwydd gofal cwsmer wrth ddarparu gwasanaeth o ansawdd. Rhoddir ystyriaeth benodol i oblygiadau moesol cyfieithu mewn rhai cyd-destunau, e.e. llesiant unigolion. Bydd y myfyrwyr yn cael y cyfle i ymarfer y sgiliau hyn mewn sefyllfa fyw ond o dan reolaeth y tiwtor.
- Bydd cyflwyniad i'r modd y gall cyfieithu ar y pryd ddylanwadu ar sut y caiff y Gymraeg ei defnyddio mewn cyfarfodydd a chyd-destun CAP wrth gynllunio'n ieithyddol. Rhoddir ystyriaeth i oblygiadau deddfwriaeth ddiweddar ar y proffesiwn CAP ac ar ddatblygiad cyfieithu o'r Saesneg i'r Gymraeg mewn cyd-destunau penodol.
- Ar ddiwedd y modwl bydd y myfyrwyr yn treulio cyfnod gyda chwmni cyfieithu neu mewn uned gyfieithu yn eu gweithle lle byddant yn dysgu am ofynion ymarferol a threfniadol y man gwaith proffesiynol, y sgiliau angenrheidiol wrth weithio fel aelod o dîm, delio gyda gwybodaeth gyfrinachol, a realiti gweithio fel cyfieithydd proffesiynol. Disgwylir i'r myfyrwyr ymgymryd â chyfieithu mewn 5 cyfarfod yng nghwmni cyfieithydd profiadol a chael cyfle i roi cynnig ar gyfieithu ar y pryd, a chofnodi hynny'n ffurfiol.

Dyraniad Amser Astudio

Mae'r amser astudio ar gyfer y modwl wedi ei rannu fel a ganlyn:

Math o Weithgaredd	Oriau	Canran
Dysgu ar yr amserlen	15	5%
Dysgu'n annibynnol	250	83%
Dysgu drwy leoliadau	35	12%
CYFANSWM	300	100%

ASESU

Elfen Asesu 1

☐ Arholiad ysgrifenedig ☐ Gwaith cwrs ☒ Ymarferol

Dull asesu	Maint	Pwysiad
Tri phrawf cyfieithu ar y pryd gwrthgyferbyniol 2 o'r Gymraeg i'r Saesneg 1 o'r Saesneg i'r Gymraeg	10 munud yr un	60%

Elfen Asesu 2

☐ Arholiad ysgrifenedig ☒ Gwaith cwrs ☐ Ymarferol

Dull asesu	Maint	Pwysiad
Prosiect	3,000 o eiriau	40%

Crynodeb o'r Asesiad

Math o weithgarwch	Canran
Arholiad ysgrifenedig	
Gwaith cwrs	40%
Ymarferol	60%
CYFANSWM	100%

RHESTR DDARLLEN DDANGOSOL

Côd y Modwl	GCCP7003C	
Teitl Modwl	Cyfieithu ar y Pryd Proffesiynol	
Categori	Eitemau'r Rhestr Ddarllen	Electronig*
Hanfodol	Austermuhl, F., <i>Electronic Tools for Translators</i> , Manchester: St Jerome, 2001	☐
Hanfodol	Gran, Laura a John Dodd. goll. <i>The Theoretical and Practical Aspects of Teaching Conference Interpretation</i> , Udine: Campanotto, 1989	☐
Hanfodol	Davies, Hurford ac Edwards, E-lyfr Cyfieithu ar y Pryd https://www.porth.ac.uk/cy/collection/e-lyfrau-cyfieithu	☒

	Griffiths, B. a Jones, D.G., <i>Geiriadur yr Academi</i> , Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1995 http://geiriaduracademi.org/ <gwelwyd: 17 Ebrill 2018>	
Hanfodol	Jones, R., <i>Conference Interpreting Explained</i> , Manchester: St Jerome, 1998	☐
Hanfodol	Kaufmann, J., 'Cymdeithaseg cyfieithu: Dylanwad cyfieithu ar y pryd ar y defnydd o'r Gymraeg yng Ngwynedd', traethawd PhD, Prifysgol Bangor, 2009	☐
Hanfodol	Lambert, S. a Moser-Mercer, B. goln. <i>Bridging the Gap: Empirical Research in Simultaneous Translation</i> , Amsterdam: John Benjamins, 1994	☐
Hanfodol	Venuti, L., <i>The Translator's Invisibility. A History of Translation</i> , London: Routledge, 1995	☐
Pellach	Comisiynydd y Gymraeg p://www.comisiynyddygyymraeg.cymru/cymraeg/Pages/Hafan.aspx http://www.comisiynyddygyymraeg.cymru/Cymraeg/Adroddiadau/Pages/Cyfieithu.aspx https://www.comisiynyddygyymraeg.cymru/polisi-ac-ymchwil/defnyddior-gymraeg	☒
Pellach	Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr http://www.cynulliad.cymru/laid%20documents/gen-ld11108/gen-ld11108-w.pdf	☒
Pellach	David, K., <i>Translating Cultures: An Introduction for Translators, Interpreters and Mediators</i> , London: Routledge, 2004	☐
Pellach	Davies, Hurford, Edwards, E-lyfr Cyfieithu ar y Pryd, Coleg Cymraeg Cenedlaethol, 2022	☐
Pellach	Dienw, <i>O Glust i Glust; Canllawiau ar Ddefnyddio Gwasanaeth Cyfieithu ar y Pryd</i> , Llangefni: Menter Iaith Môn, 2002	☐
Pellach	Hale, S., <i>The Discourse of Court Interpreting: discourse practices of the law, the witness, and the interpreter</i> , Amsterdam: John Benjamins, 2004 < e-lyfr>	☒
Pellach	Jones, B.M., <i>Ar Lafar ac ar Bapur</i> , Aberystwyth: Y Ganolfan, 1993	☐
Pellach	Jones, R., <i>Conference Interpreting Explained</i> , Manchester: St Jerome, 1998	☐
Pellach	Lewis, G., <i>Hawl i'r Gymraeg</i> , Tal-y-bont: Y Lolfa, 2008	☐
Pellach	Lewis, R., <i>Geiriadur Newydd y Gyfraith</i> , Llandysul: Gomer, 2003	☐
Pellach	Llywodraeth Cymru Welsh Government. <i>Cymraeg 2050 Miliwn o siaradwyr</i> , http://www.assembly.wales/laid%20documents/gen-ld11108/gen-ld11108-w.pdf	☒
Pellach	Monacelli, C., <i>Self-Preservation in Simultaneous Interpreting [electronic resource]: Surviving the Role</i> , Philadelphia, PA: John Benjamins, 2009	☐
Pellach	Morgan, R., a Owen, H. W., <i>Dictionary of the Place-names of Wales</i> , Llandysul: Gomer, 2007	☐

Pellach	Morris, S., a Rottet, K., <i>Comparative Stylistics of Welsh and English</i> , Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 2018	☐
Pellach	Newmark, P., <i>Approaches to Translation</i> , Oxford: Pergamon Press, 1981	☐
Pellach	Nolan, J., <i>Interpretation: techniques and exercises</i> , Buffalo: Multilingual Matters, 2005 <e-lyfr>	☒
Pellach	Paneth, E., "Training in Note Taking (for interpreting)," yn Wilss, W a Thomes, G. (goln.) <i>Translation Theory and its Implementation in the Teaching of Translating and Interpreting</i> , Tübingen: Gunter Narr, 2001, tt. 326-32	☐
Pellach	Phelan, M., <i>The Interpreter's Resource</i> , Clevedon: Multilingual Matters, 2001	☐
Pellach	Setton, R., <i>Simultaneous Interpretation: A Cognitive-Pragmatic Analysis</i> , Amsterdam: John Benjamins, 1999	☐
Pellach	Thomas, P. W., <i>Gramadeg y Gymraeg</i> , Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1996	☐
Pellach	Dogfen Cyngor: Drafftio Dwyieithog, Cyfieithu a Chyfieithu ar y Pryd http://www.comisiynyddygyymraeg.cymru/Cymraeg/Rhestr%20Cyhoeddiadau/20120504%20DG%20C%20Cyngor%20Cyfieithu%20a%20Drafftio%20Dwyieithog%20(2).pdf	☒
Pellach	Geiriadur ar lein Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant http://www.geiriadur.net	☒
Pellach	Term Cymru, Llywodraeth Cymru, http://www.termcymru.cymru.gov.uk	☒
Pellach	Y Porth Termiau Cenedlaethol http://termau.cymru/	☒
Pellach	http://www.cyfieithwycymru.org.uk/adnoddau-4.aspx	☒

Côd y Modwl	ECDA7008C
Teitl	Hanfodion Cynllunio iaith
Dyddiad	02/03/2022
Lefel	7
Credydau	30
Rhagofynion	

AMCAN(ION)

- Ystyried yn feirniadol brif agweddau damcaniaethol y maes cynllunio iaith drwy gyfeirio at ddamcaniaethau a dadansoddiadau perthnasol ac enghreifftiau ymarferol a dynnir o Gymru a thramor, ynghyd â thrafod y prif ddatblygiadau cymdeithasol a gwleidyddol o safbwynt cynllunio iaith yng Nghymru yn ystod yr ugeinfed ganrif.

DEILLIANNAU DYSGU

Ar ôl cwblhau'r modwl hwn yn llwyddiannus, dylai'r myfyriwr allu:

- trin yn feirniadol darddiad, prif nodweddion a thrywyddau damcaniaethol y maes cynllunio iaith, gan gyfeirio at awduron allweddol;
- trafod yn ddadansoddol iaith fel agwedd ar ymddygiad cymdeithasol, a'r hyn a olyga hynny i unigolion ac i berthynas grwpiau iaith â'i gilydd;
- cyfeirio at ymchwil a safbwyntiau arwyddocaol mewn nifer o feysydd craidd (e.e. trosglwyddo iaith, iaith a hunaniaeth, iaith a diwylliant, iaith ac economi, statws cyfreithiol) a'u gwerthuso'n feirniadol;
- cyfeirio at brif ffynonellau data demograffeg iaith, gan ddethol data perthnasol i feysydd diddordeb penodol;
- adnabod a thrafod datblygiadau a nodweddion polisi cyhoeddus ar gyfer ieithoedd llai a rhanbarthol, gan gyfeirio at Gymru, gwledydd yn Ewrop a Gogledd America, a chymharu datblygiadau a thueddiadau mewn gwledydd gwahanol.

CYNNWYS DANGOSOL

- Astudiaeth o iaith fel agwedd ar ymddygiad cymdeithasol ynghyd â phrif nodweddion iaith yng nghyswllt prosesau cymdeithasol e.e. cymdeithasoli, iaith a hunaniaeth; iaith a mynegiant; iaith a diwylliant; iaith a pheuodd cymdeithasol; perthynas cymunedau iaith â'i gilydd;
- Astudiaeth o wreiddiau hanesyddol cynllunio iaith o ran y cyd-destun ôl-imperialaidd; twf hunaniaeth ranbarthol a chenedlaethol fel grym gwleidyddol; y mudiad adfer iaith byd eang; globaleiddio a dosbarthiad grym rhwng cymunedau iaith;
- Orlhain gwreiddiau prif drywyddau damcaniaethol cynllunio iaith: dadansoddiadau strwythurol-ffwythiannol, dadansoddiadau ymddygiadol, dadansoddiadau seico-gymdeithasol, dadansoddiadau Marcsaidd a thueddiadau diweddar megis eco-ieithyddiaeth;
- Astudiaeth o brif ffynonellau data iaith a'r defnydd a wneir ohonynt, gan gynnwys dadansoddiad beirniadol o ystadegau'r Cyfrifiadau Cenedlaethol;
- Astudiaeth o berthynas iaith a grym drwy edrych ar brif ddatblygiadau cymdeithasol a gwleidyddol y Gymraeg 1847 – 2022, gan ganolbwyntio ar ddatblygiadau yn ail hanner yr 20fed ganrif a dylanwad y 'mudiad iaith' ar ddatblygiadau gwleidyddol a chymdeithasol;

- Arolwg o bolisi iaith cyhoeddus yng Nghymru er 1967: deddfau a strategaethau hyrwyddo ynghyd ag astudiaeth feirniadol gymharol â gwledydd a rhanbarthau eraill yn Ewrop a Gogledd America.

Dyraniad Amser Astudio

Mae'r amser astudio ar gyfer y modwl wedi ei rannu fel a ganlyn:

Math o weithgaredd	Oriau	Canran
Dysgu wedi'i amserlennu	30	10%
Dysgu'n annibynnol	270	90%
Dysgu drwy leoliadau		
CYFANSWM	300	100%

ASESU

Elfen Asesu 1

☐ Arholiad ysgrifenedig ☒ Gwaith cwrs ☐ Ymarferol

Dull asesu	Maint	Pwysiad
Traethawd (tri is-gwestiwn)	5,400 o eiriau	60%

Elfen Asesu 2

☐ Arholiad ysgrifenedig ☐ Gwaith cwrs ☒ Ymarferol

Dull asesu	Maint	Pwysiad
Cyflwyniad seminar unigol	30 munud	40%

Crynodeb o'r Asesiad

Math o weithgaredd	Canran
Arholiad ysgrifenedig	
Gwaith cwrs	60%
Ymarferol	40%
CYFANSWM	100%

RHESTR DDARLLEN DDANGOSOL

Cod y Modwl	ECDA7008C	
Teitl y Modwl	Hanfodion Cynllunio iaith	
Categori	Eitemau'r Rhestr Ddarllen	Electronig*
Hanfodol	Cooper, R. L. <i>Language planning and social change</i> . Cambridge: Cambridge University Press, 1989.	☒
Hanfodol	Dewaele, J.M., Housen, A. & Li W. (eds). <i>Bilingualism: Beyond Basic Principles</i> . Clevedon: Multilingual Matters, 2003.	☒
Hanfodol	Fairclough, N. <i>Language and Power</i> . Harlow: Longman, 2001.	☐
Hanfodol	Fishman, J. A. <i>Reversing Language Shift: Theory and Practice of Assistance to Threatened Languages</i> . Clevedon: Multilingual Matters, 1991.	☐
Hanfodol	Hornberger, N. H. & Martin Pütz (eds). <i>Language Loyalty, Language Planning and Language</i>	☐

	<i>Revitalisation: Recent Writings and Reflections from Joshua A. Fishman</i> . Clevedon: Multilingual Matters, 2006.	
Hanfodol	Kaplan, R.B. & Baldauf, R. B. <i>Language Planning: From Practice to Theory</i> . Bristol: Multilingual Matters, 1997.	☐
Hanfodol	Kymlicka, W. <i>Liberalism, Community and Culture</i> . Oxford: Oxford University Press, 1989.	☐
Hanfodol	Liddicoat, A.J. & Baldauf, R.B. <i>Language Planning and Policy: Language Planning in Local Contexts</i> . Bristol: Multilingual Matters, 2008.	☒
Hanfodol	Lim, L., Stroud, C. & Wee, L. <i>The Multilingual Citizen: Towards a Politics of Language for Agency and Change</i> . Bristol: Multilingual Matters, 2018.	☒
Hanfodol	Nettle, D. & Romain, S. <i>Vanishing Voices</i> . Oxford: Oxford University Press, 2002.	☒
Hanfodol	Norrby, C. & Hajek, J. (eds). <i>Uniformity and Diversity in Language Policy: Global Perspectives</i> . Bristol: Multilingual Matters, 2011.	☒
Pellach	Aitchison, J. and Carter, H. <i>Language Economy and Society: the changing fortunes of the Welsh language in the twentieth century</i> . Cardiff: University of Wales Press, 2000.	☐
Pellach	Bwrdd yr Iaith Gymraeg. <i>Dyfodol y Gymraeg – Cynllun Strategol: The Future of Welsh – A Strategic Plan</i> . Caerdydd: Bwrdd yr Iaith Gymraeg, 2005.	☐
Pellach	Fairclough, N. <i>Discourse and Social Change</i> . Oxford: Polity, 1992.	☐
Pellach	Fishman, F. A. <i>Can Threatened Languages Be Saved?</i> Clevedon: Multilingual Matters, 2000.	☒
Pellach	Llywodraeth Cymru. <i>Iaith fyw: iaith byw. Strategaeth y Gymraeg 2012-17</i> . Caerdydd: Llywodraeth Cymru, 2012.	☒
Pellach	Llywodraeth Cymru. <i>Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr</i> . Caerdydd: Llywodraeth Cymru, 2017.	☒
Pellach	Llywodraeth Cynulliad Cymru. <i>Bilingual Future: Dyfodol Dwyieithog</i> . Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2002.	☐
Pellach	Llywodraeth Cynulliad Cymru. <i>Iaith Pawb: Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Cymru Ddwieithog</i> . Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2003.	☒
Pellach	Neill, D. (ed.) <i>Rebuilding The Celtic Languages</i> . Tal-y-bont: Y Lolfa, 2005.	☐
Pellach	Williams, C.H. (ed.) <i>Language Revitalization: Policy and Planning in Wales</i> . Cardiff: University of Wales Press, 2000.	☒
Pellach	Williams, G. & Morris, D. <i>Language Planning and Language Use: Welsh in a Global Age</i> . Cardiff: University of Wales Press, 2000.	☐

Côd y Modwl	ECDA7009C
Teitl	Hyrwyddo'r Gymraeg
Dyddiad	23/11/2023
Lefel	7
Credydau	30
Rhagofynion	Dim
Archwiliad DBS	Efallai bydd yn ofynnol ☐ Ddim yn ofynnol ☒

AMCAN(ION)

- Archwilio sut yr hyrwyddir y Gymraeg yng Nghymru drwy gynllunio ieithyddol gan astudio'r modd y mae sefydliadau cyhoeddus yn gwneud hynny, beth sy'n eu cymell a pha brosesau ac egwyddorion yr ymwneir â nhw. Archwilir hefyd sut y caiff defnydd o'r Gymraeg ei hyrwyddo gan unigolion a chymunedau Cymraeg ynghyd ag asiantaethau'r wladwriaeth ac eraill.

DEILLIANNAU DYSGU

Ar ôl cwblhau'r modwl hwn yn llwyddiannus, dylai'r myfyriwr allu:

- ystyried yn feirniadol y ffactorau sy'n dylanwadu ar ddefnydd iaith, gan dalu sylw i amrywiaethau mewn peuoedd cymdeithasol a chyd-destunau amrywiol;
- deall y prosesau, o ran polisi a gweithredu, sydd gan gyrff cyhoeddus wrth law i hyrwyddo'r Gymraeg;
- ystyried yn feirniadol ymdrechion diweddar i hyrwyddo'r Gymraeg gan gyrff cyhoeddus gan gyfeirio at y prif elfennau strategol e.e. trosglwyddo iaith, iaith a phobl ifanc, addysg cyfrwng-Cymraeg, iaith a gwaith, y cyfryngau torfol, technoleg gwybodaeth, ac ati;
- trafod yn feirniadol ymdrechion i hyrwyddo'r Gymraeg ymhlith cymdogaethau gan ddadansoddi'r berthynas rhwng cynllunio iaith, datblygu cymunedol a datblygu economaidd;
- asesu sefyllfa ieithyddol benodol gan gynnig syniadau a chynlluniau ar gyfer adfer iaith yn y sefyllfa honno.

CYNNWYS DANGOSOL

- Gwerthusiad o ymdrechion hanesyddol y llywodraeth yng Nghymru i hyrwyddo'r iaith Gymraeg ynghyd â'r cynlluniau cyfredol hyd at 2026 ar gyfer cynyddu nifer y siaradwyr, defnydd o'r iaith a chreu amodau ffafriol;
- Arolwg a dadansoddiad beirniadol o effaith Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 a Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a'u dylanwad ar y defnydd a wneir o'r Gymraeg yn y pau cyhoeddus, gan gynnwys y sgil effeithiau ar gyrff y trydydd sector a chyrff preifat;
- Astudiaeth o ymdrechion ffurfiol diweddar y llywodraeth i hyrwyddo'r Gymraeg ar sail strategaethau cenedlaethol er sefydlu Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn 1993 (a'i ddiddymu yn 2012) gan gynnwys *Dyfodol Dwyieithog* (2002); *Iaith Pawb* (2003); *Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg* (2010) ; *Iaith fyw: iaith byw* (2012) ; *Cymraeg 2050: Miliwn o saradwyr* (2017); a *Cymraeg 2050: ein cynllun ar gyfer 2021 i 2026* (2021);
- Ystyried y cysyniad o beuodd cymdeithasol a'r cydberthynas rhyngddynt, gan gyfeirio at y defnydd hanesyddol o'r Gymraeg mewn peuoedd gwahanol;

- Astudiaeth feirniadol o'r prosesau a ddefnyddir gan gyrff cyhoeddus i hyrwyddo'r Gymraeg gan gynnwys strategaethau a chynlluniau corfforaethol a phartneriaethol; Safonau iaith Gymraeg; Strategaethau Sgiliau iaith; strategaethau prif-ffrydio; cynlluniau Cymraeg yn y Gweithle; rheoliadau amrywiol; canllawiau caffael; gwasanaethau uniongyrchol a blaengareddau cymunedol;
- Astudiaeth feirniadol o hawliau iaith yng nghyd-destun hawliau dynol, cyfle cyfartal a pherthynas iaith â'r maes cydraddoldeb ehangach;
- Astudiaeth o oblygiadau deddfwriaeth ym meysydd addysg a chynllunio tir i'r modd yr hyrwyddir y Gymraeg yng Nghymru;
- Arolwg o le addysg yng Nghymru er 1944 o safbwynt cynnal y Gymraeg;
- Arolwg o le'r cyfryngau o safbwynt cynnal y Gymraeg ers 1971, gan gynnwys datblygiad TGCh a chyfryngau cymdeithasol cyfrwng-Cymraeg;
- Astudiaeth o arwyddocâd trosglwyddo iaith yn y teulu o safbwynt cynnal cymunedau iaith. Rhoddir sylw arbennig i'r cynllun Twf, Cymraeg i Blant ac amrywiol brosiectau eraill a ddatblygwyd i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg yn y teulu. Edrychir ar y sail damcaniaethol rhwyngwladol ynghyd â phrofiad lleol;
- Cyflwyniad i egwyddorion sylfaenol Datblygu Cymunedol gan gyfeirio at ei swyddogaeth o fewn polisi cyhoeddus ers yr 1960au. Trafodir yn feirniadol gysyniadau megis 'ymrymuso', 'adfywio' a 'chymuned' a ddefnyddir gan ymarferwyr datblygu cymunedol. Astudir enghreifftiau o arfer da lle mae cynllunio iaith wedi ei gynnwys yn rhan ganolog o brosesau datblygu cymunedol, gan gynnwys datblygiad a swyddogaeth y mentrau iaith;
- Astudiaeth o'r berthynas rhwng iaith ac economi ar lefel macro (cenedaethol a rhanbarthol) a micro (mentergarwch unigol a chymunedol).

Dyranriad Amser Astudio

Mae'r amser astudio ar gyfer y modwl wedi ei rannu fel a ganlyn:

Math o weithgaredd	Oriau	Canran
Dysgu wedi'i amserlennu	30	10%
Dysgu'n annibynnol	270	90%
Dysgu drwy leoliadau		
CYFANSWM	300	100%

ASESU

Elfen Asesu 1

☐ Arholiad ysgrifenedig ☒ Gwaith cwrs ☐ Ymarferol

Dull asesu	Maint	Pwysiad
Portffolio	5,400 o eiriau	60%

Elfen Asesu 2

☐ Arholiad ysgrifenedig ☐ Gwaith cwrs ☒ Ymarferol

Dull asesu	Maint	Pwysiad
Cyflwyniad seminar unigol	30 munud	40%

Crynodeb o'r Asesiad

Math o weithgaredd	Canran
Arholiad ysgrifenedig	
Gwaith cwrs	60%
Ymarferol	40%
CYFANSWM	100%

RHESTR DDARLLEN DDANGOSOL

Cod y Modwl	ECDA7009C	
Teitl y Modwl	Hyrwyddo'r Gymraeg	
Categori	Eitemau'r Rhestr Ddarllen	Electronig*
Hanfodol	Bwrdd yr Iaith Gymraeg. <i>Cynlluniau Iaith Gymraeg: Welsh Language Schemes</i> . Caerdydd: Bwrdd yr Iaith Gymraeg, 1996.	☐
Hanfodol	Bwrdd yr Iaith Gymraeg. <i>Dyfodol y Gymraeg – Cynllun Strategol: The Future of Welsh – A Strategic Plan</i> . Caerdydd: Bwrdd yr Iaith Gymraeg, 2005.	☐
Hanfodol	Jones, H. M. <i>Arolwg Defnydd Iaith 2004-2006</i> , Caerdydd: Bwrdd yr Iaith Gymraeg, 2006.	☐
Hanfodol	Lewis, G. <i>Hawl i'r Gymraeg</i> . Tal-y-bont: Y Lolfa, 2008.	☐
Hanfodol	Llywodraeth Cymru. <i>Iaith fyw: iaith byw. Strategaeth y Gymraeg 2012-17</i> . Caerdydd: Llywodraeth Cymru, 2012.	☒
Hanfodol	Llywodraeth Cymru. <i>Iaith fyw: iaith byw - Bwrw mlaen</i> . Caerdydd: Llywodraeth Cymru, 2014.	☒
Hanfodol	Llywodraeth Cymru. <i>Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr</i> . Caerdydd: Llywodraeth Cymru, 2017.	☒
Hanfodol	Llywodraeth Cymru. <i>Cymraeg 2050: ein cynllun ar gyfer 2021 i 2026</i> . Caerdydd: Llywodraeth Cymru, 2021.	☒
Hanfodol	Llywodraeth Cynulliad Cymru, <i>Dyfodol Dwyieithog</i> . Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2002.	☐
Hanfodol	Llywodraeth Cynulliad Cymru. <i>Iaith Pawb: Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Cymru Ddwieithog</i> . Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2003.	☒
Hanfodol	Llywodraeth Cynulliad Cymru, <i>Strategaeth Addysg Cyfrwng Gymraeg</i> : Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2010.	☒
Hanfodol	Morris, D. (ed.). <i>Welsh in the 21st Century</i> . Cardiff: University of Wales Press, 2010.	☐
Hanfodol	Williams, C. H. 'Governance and the language.' <i>Contemporary Wales</i> , 12, 130-154, 1999.	☐
Hanfodol	Williams, C.H. <i>Language Revitalisation- Policy and Planning in Wales</i> . Cardiff: University of Wales Press, 2000.	☒

Hanfodol	Williams, G. & Morris, D. <i>Language Planning and Language Use: Welsh in a Global Age</i> . Cardiff: University of Wales Press, 2000.	☐
Pellach	Aitchison, J. and Carter. H. <i>The Geography of the Welsh Language 1961-1991</i> . Cardiff: University of Wales Press, 1994.	☐
Pellach	Aitchison, J. and Carter. H. <i>Spreading the Word: The Welsh Language 2001</i> . Tal-y-bont: Y Lolfa, 2004.	☐
Pellach	Andrew, M. <i>Y Gymraeg yn y Gwasanaeth Iechyd</i> . Caerdydd: Cyngor Defnyddwyr Cymru, 2000.	☐
Pellach	Coupland, N. (ed.). <i>English in Wales: Diversity, Conflict and Change</i> . Clevedon: Multilingual Matters, 1989.	☐
Pellach	Davies, E. <i>They All Speak English Anyway</i> . Cardiff: CCETSW/CCW, 1994, 1999, 2010.	☐
Pellach	Davies, E. <i>Iaith mewn Gwasanaeth Gofalgar</i> . Caerdydd: Bwrdd yr Iaith Gymraeg, 1999.	☐
Pellach	Gruffudd, H. 'Young People's use of Welsh: the influence of home and community.' <i>Contemporary Wales</i> , 10, 200-18, 1998.	☐
Pellach	Hajek, J. & Slaughter, Y. (eds). <i>Challenging the Monolingual Mindset</i> . Bristol: Multilingual Matters, 2014.	☒
Pellach	Ioan, G. <i>Cymunedau yn Siarad</i> . Aberystwyth: Menter a Busnes, 2004.	☐
Pellach	Ioan, G. <i>Agor Dau Ddrws – cyflwyniad i waith ieuenctid dwyieithog</i> . Caerffili: Cyngor Ieuenctid Cymru, 2009.	☐
Pellach	Ioan, G. <i>Gorwelion Newydd: awgrymiadau ar gyfer cyfnod newydd mewn cynllunio iaith yng Nghymru</i> . Castellnewydd Emlyn: Iaith Cyf., 2010.	☐
Pellach	Jenkins, G.H. <i>Y Gymraeg yn ei Disgleirdeb: Yr Iaith Gymraeg cyn y Chwyldro Diwydiannol</i> . Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1997.	☐
Pellach	Jones, H. M. <i>Cyfrifiad 2001: Prif Ystadegau am y Gymraeg</i> , Caerdydd: Bwrdd yr Iaith Gymraeg, 2003.	☒
Pellach	Jones, H. M. <i>Trosglwyddo'r Iaith o fewn Cartrefi</i> . Caerdydd: Bwrdd yr Iaith Gymraeg, 2005.	☐
Pellach	Jones, K., Eaves, S. & Ioan, G. <i>Creu Cymru Gwbl Ddwieithog – cyfleoedd deddfu a gweithredu polisi</i> . Castellnewydd Emlyn: Iaith Cyf., 2007.	☐
Pellach	Jones, K. & Morris D. 'Welsh Language Socialization within the Family.' <i>Contemporary Wales</i> , 20, 52-70, 2007.	☐
Pellach	Kymlicka, W. <i>Liberalism, Community and Culture</i> . Oxford: Oxford University Press, 1989.	☐
Pellach	Lewis, S. <i>Tynged yr Iaith</i> . Llundain: BBC, 1962.	☐

Pellach	Thomas, H.S. <i>Brwydr i Baradwys? Y Dylanwadau ar Dwf Ysgolion Cymraeg De-ddwyrain Cymru</i> . Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 2010.	☐
Pellach	Tudur, G. <i>Wyt Ti'n Cofio? Chwarter Canrif o Frwydr yr Iaith</i> . Tal-y-bont: Y Lolfa, 1989.	☐
Pellach	Y Ffwrwm. <i>Arian Byw: Live Culture</i> . Llanbedr Pont Steffan: Y Ffwrwm, 2004.	☐